**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| J A Hale | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | E T Kirchner | W G Lewis |
| W G Thomas | T M White | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | L R Jones |
| P R Hood-Williams | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R C Stewart | Arweinydd / Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): G J Tanner

---

## 138 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 139 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**140 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2020 fel cofnod cywir.

**141 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**142 Diweddariad am yr Ymateb i COVID-19 a'i Adferiad.**

Roedd yr Arweinydd / Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Lleoedd yn bresennol wrth i'r i'r Pwyllgor ystyried y diweddariad ar ymateb y cyngor i'r pandemig COVID-19 a chynllunio adferiad yn ei sgîl.

Darparodd yr Arweinydd gyflwyniad a oedd yn cynnwys: -

- Sefyllfa Bresennol COVID-19
- Penderfyniadau Allweddol
- Datblygu'r Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu
- Amserlen/Amlinelliad Cynllunio Adferiad
- Heriau Presennol

Cafwyd cwestiynau a thrafodaethau â'r Arweinydd a'r Swyddogion ynghylch ystod o faterion, gan gynnwys y canlynol:

- Sefyllfa bresennol COVID-19 a gwybodaeth am achosion o COVID -19 yn yr ardal
- Y cyngor sydd ar gael i Ganolfannau Cymunedol a busnesau i helpu gydag ailagor
- Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill ar Raglen Profi, Olrhain a Diogelu
- Tanwariant o £18 miliwn ar alldro disgwyliedig y gyllideb
- Y costau mewn perthynas â COVID-19 a'r posibilrwydd o adennill costau
- Abertawe yn gyngor sy'n berchen ar lawer o dir - posibilrwydd ychwanegol y bydd colled mewn incwm
- Cefnogaeth ariannol i Farchnad Abertawe a Freedom Leisure
- Statws presennol o ran derbyn sachau du mewn safleoedd amwynderau dinesig ac ailagor llyfrgelloedd a swyddfeydd tai rhanbarthol
- Profi parhaus mewn cartrefi gofal
- Goblygiadau adnoddau/staffio'r Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu
- Ffocws bwriadus cynllun adfer y cyngor
- Cynllun adfer Llywodraeth Cymru
- Effaith COVID-19 ar fuddsoddiad yn y sector preifat yn y dyfodol
- Buddsoddiad Llywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru mewn prosiectau/cynlluniau isadeiledd lleol
- Cronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig y DU a'r dyraniad posib yn dilyn Brexit

- Nifer y busnesau yng nghanol y ddinas sydd wedi ailagor - mae tua ¾ o leoliadau lletygarwch ar gau o hyd nes y gallant agor y tu mewn
- Yr effaith ar wasanaethau bysus a lefel bresennol y gwasanaeth
- Ymdrin â/dysgu sut i fyw gyda COVID-19 yn y tymor hir
- Cefnogaeth ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid - awdurdodaeth/pwyso am wasanaeth teithio gwell neu am ddim

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd, y Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Lleoedd am ddod i'r cyfarfod.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at yr Arweinydd, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 143 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.25 pm

**Cadeirydd**